Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

Byddwch yn effro i ymdrechion i'ch ecsbloetio neu'ch twyllo

Peidiwch â bod ofn dweud 'na'

Adrodd am gam-drin/sgamiau ariannol posibl

Gwell bod yn anghwrtais na chael eich twyllo a'ch ecsbloetio



# CAM-DRIN ARIANNOL

Mae'n fwy cyffredin nag yr ydych chi'n meddwl.

**Ystyr cam-drin ariannol yw pan fydd rhywun yn ceisio cymryd rheolaeth dros yr hyn sy'n berchen i chi er ei fudd nhw, nid eich budd chi. Mae cam-drin ariannol yn fwy cyffredin nag y mae pobl yn ei feddwl. Nid yw'r mwyafrif o gam-drin ariannol yn cael ei adrodd, sy'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei newid.**

Gall cam-drin ariannol gynnwys dwyn arian, twyll, sgamiau, manteisio ar rywun y maen nhw'n ei adnabod, atal rhywun rhag defnyddio ei arian ei hunain, bygythiadau neu bwysau ar rywun mewn perthynas ag arian neu eiddo.

Mae esiamplau eraill yn cynnwys cam-ddefnyddio lwfans personol, budd-daliad neu daliadau uniongyrchol rhywun, er enghraifft trefnu llai o ofal nag sydd ei angen i arbed arian a chynyddu etifeddiaeth. Gallai hefyd olygu gwrthod cymorth i rywun gael rheolaeth dros ei gyllid, cael mynediad at fudd-daliadau, neu roi pwysau ar rywun i gymryd benthyciadau neu gardiau credyd yn ei enw.

Mae twyll a sgamiau yn gyffredin y dyddiau hyn, a hyd yn oed yn fwy cyffredin ers cychwyn y pandemig COVID-19, gyda throseddwyr yn dod o hyd i ffyrdd mwy creadigol o dwyllo, sgamio a manteisio ar unigedd pobl.

## **70%** o gam-drin ariannol oherwydd aelodau o'r teulu

**Tra bod twyll a sgamiau yn cynyddu, mae pobl yn parhau i fod yn fwy tebygol o gael ei gam-drin yn ariannol gan rywun y maen nhw'n ei adnabod, rhywun yr oedden nhw'n credu y gallen nhw ymddiried ynddo.**

## **60-80%** o gam-drin ariannol yn digwydd yn y cartref

### Dyma arwyddion posibl bod cam-drin ariannol yn digwydd:

- Anghyfartalwch rhwng amodau byw ac adnoddau ariannol
- Arian neu eiddo ar goll
- Ôl-ddyledion rhent a gorchmynion troi allan, neu beidio â thalu biliau
- Codi arian heb reswm
- Gweithgaredd banc anarferol
- Newidiadau i ewyllys, neu werthu/drosglwyddo tŷ
- 'Rhoddion' sylweddol i drydydd parti
- Llofnod yn newid ychydig
- Ynysu gorfodol gan ffrindiau neu deulu

## Edrych ar ôl **eich pethau**:

- Adolygu eich cyllid yn rheolaidd, gan gynnwys cyfriflenni banc a biliau
- Os ydych chi'n gweld pryniant anarferol, ni waeth pa mor fach, rhowch wybod amdano neu holi gyda'ch banc; gallai fod yn brawf cyn i bryniannau mwy gael eu gwneud
- Os yw rhywun arall yn delio â'ch cyfriflenni, gofynnwch i weld copïau o'r cyfriflenni neu wneud cais i gopïau rheolaidd gael eu hanfon atoch chi hefyd. Ydych chi'n sicr bod modd ymddiried yn llwyr yn yr unigolyn arall?
- Byddwch yn ofalus os bydd teulu, ffrindiau neu hyd yn oed gofalyddion yn gofyn am arian neu eiddo. Rhaid ystyried eich anghenion ariannol tymor hir, a does dim byd i'w ennill trwy annog dibyniaeth a/neu drachwant mewn eraill
- Peidiwch ag oedi wrth wneud cais am Atwrneiaeth, a phenodi rhywun y gallwch chi ymddiried ynddo

## Sut gallwn ni gadw'n **ddiogel...**

### Gartref?

- Cadwch ddrysau a ffenestri ar glo
- Peidiwch â rhoi mynediad i unrhyw un at eich sêff allwedd, oni bai eu bod nhw'n hysbys i chi a bod modd ymddiried ynddyn nhw
- Peidiwch fyth â chadw symiau mawr o arian parod yn y tŷ
- Cadwch eich pethau gwerthfawr yn ddiogel mewn blwch clo/sêff, wedi'i guddio o'r golwg

### Yn y gymuned?

- Cadwch eich pethau gwerthfawr yn ddiogel pan rydych chi mewn mannau cyhoeddus. Er enghraifft, peidiwch â hysbysebu ble rydych chi'n cadw'ch pwrs, waled, neu'ch ffôn symudol
- Cymerwch ofal i guddio rhifau PIN wrth ddefnyddio peiriannau arian parod
- Ceisiwch osgoi rhoi eich cerdyn banc neu rif PIN i unrhyw un a chael derbynneb bob tro os nad oes modd osgoi hynny

### Sefydliadau a all helpu:

Heddlu: 999 neu 101
Llinell Gymorth ar Bopeth: 0808 2231133
Action Fraud: 0300 123 2040
Uned Benthyca Arian Anghyfreithlon: 0300 1233311
Cefnogi Pobl
Connect Gwent (Cymorth i ddioddefwyr)
Age Cymru
Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
Dewis
www.FriendsAgainstScams.org.uk

**Gwasanaethau Cymdeithasol:**
Blaenau Gwent: 01495 315700
Caerffili: 0808 1002500
Torfaen: 01495 762200
Casnewydd: 01633 656656
Sir Fynwy: 01873 735492

**Safonau Masnach:**
Torfaen: 03454 040506
Sir Fynwy: 0808 2231133
Caerffili: 01443 866222
Blaenau Gwent: 01495 357813
Casnewydd: 01633 656656

## **Sgamiau:** os gallwch chi weld sgâm, gallwch **chi atal sgâm**

**S** **wnio'n rhy dda i fod yn wir**

**G** **wbl annisgwyl**

**A** **ngen eich manylion personol**

**M** **aen nhw'n gofyn am arian**

## Awgrymiadau ymarferol i'ch helpu chi i fod o flaen y sawl sy'n ceisio eich **ecsbloetio a thwyllo chi**

### Byddwch yn effro i **alwyr diwahoddiad**, sgamiau ar **stepen drws** a **dros y ffôn**

- Peidiwch ag agor y drws i alwyr diwahoddiad sy'n ymweld â'ch eiddo, a chofio gwirio a chymryd llun o unrhyw gardiau adnabod sy'n cael eu cynnig
- Peidiwch ag ymgysylltu â galwyr diwahoddiad sy'n ffonio neu ymweld â'ch cartref - mae'n iawn dweud 'na'
- Ni fydd y banc/CThEM/cwmnïau cyfleustodau yn eich ffonio chi i ofyn am daliad (maen nhw bob amser yn ysgrifennu atoch chi yn gyntaf), neu ofyn i gasglu eich cerdyn banc neu lyfr sieciau
- Ni fydd unrhyw fanc neu sefydliad dilys arall byth yn gofyn am eich rhif pin, felly peidiwch â'i roi iddyn nhw. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu atoch chi os nad ydych chi'n sicr
- Os na wnaethoch chi ofyn am ddyfynbris, ymgynghoriad neu waith, gallai hyn fod yn ymgais i'ch ecsbloetio chi neu eich twyllo chi. Cofiwch gael ail farn annibynnol
- Byddwch yn ofalus os ydych chi'n cael galwadau ffôn gan god ardal neu wlad annisgwyl

### Sut gallwn ni **fod yn fwy diogel ar-lein?**

- Byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio ystafelloedd sgwrsio neu wefannau chwilio-am-gariad
- Peidiwch ag anfon lluniau preifat o'ch hunain - fe allech chi gael eich blacmelio
- Newidiwch eich cyfrineiriau yn rheolaidd a pheidio â defnyddio'r un cyfrinair ar gyfer popeth. Peidiwch â rhoi eich cyfrineiriau ar-lein i eraill
- Newidiwch eich cyfeiriad e-bost os daw dan fygythiad
- Defnyddiwch wefannau diogel y gellir ymddiried ynddynt wrth brynu eitemau, a byddwch yn effro i wefannau sydd wedi'u copïo, rydym yn cynghori gwirio cyfeiriad y we ddwywaith i sicrhau bod 'co.uk' neu '.com' yn bresennol ac os na ddefnyddiwch
- Triniwch unrhyw geisiadau i fewngofnodi i gyfrif ar-lein yn ofalus iawn. Cymerwch 'egwyl' bob amser a gwirio hyn
- Mae'n ddoeth osgoi defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gael benthyciadau, nid yw llawer ohonyn nhw wedi'u trwyddedu
- Os yw'n swnio'n rhy dda i fod yn wir, mae'n debyg bod hynny'n wir - os oes unrhyw amheuaeth, peidiwch â chlicio nac agor dolenni
- Peidiwch â chymryd unrhyw beth fel mae'n ymddangos ar yr wyneb. Croeswiriwch fanylion trwy ddefnyddio gwefannau eraill, a chofio bod modd ffugio adolygiadau

Am ragor o wybodaeth am gam-drin ariannol, mae adnoddau cam-drin ariannol ar gael ac mae modd lawrlwytho copïau o'r daflen hon ar: **www.gwentsafeguarding.org.uk** | twitter: **@GwentBoard**